| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Ionawr 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Addysg / Pennaeth Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Addysg/<br>Cydlynydd Rhwydwaith 14 – 19** |
| **Teitl:** | **NEETS (pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Y camau sy'n cael eu cymryd i ddelio â'r nifer o bobl ifanc yn y Sir sy'n NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i fod yn weithredol wrth gefnogi'r bobl ifanc yma sydd mewn perygl o ddod yn NEET er mwyn gwella perfformiad yn erbyn y mesur yma; a sicrhau nad ydy pobl ifanc y Sir yn cwympo i'r categori yma; a bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gyfrannu at ddatblygiad yr economi leol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau yn adolygu ac arsylwi ar y perfformiad yn erbyn y mesur hwn.

## 4. Mesurau a gymerwyd i gefnogi NEETS

Ers 2005 mae Sir Ddinbych wedi datblygu nifer o strategaethau i leihau nifer y NEETs. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfarwyddebau polisi Llywodraeth Cymru a gofynion y Cynllun Rhwydwaith 14-19. O ganlyniad i'r dull a fabwysiadwyd, mae Sir Ddinbych wedi gweld y gwelliannau canlynol:

- Mae'r % o ddisgyblion sy'n gadael addysg statudol wedi cyrraedd trothwy lefel 2 (5A*-C neu gyfwerth) wedi gwella'n barhaol a chyrraedd tua 88%.
- Mae'r % o ddisgyblion mewn addysg lawn amser wedi codi at 88.4% yn 2013.
- Ers 2005 bu lleihad cyffredinol yn % yr NEETS â dau eithriad: 2008 a 2013.

Cyfeiriwch at Atodiad 1 sy'n manylu cyd-destun y gwaith a wnaethpwyd i leihau nifer y NEETS ac sy'n darparu trosolwg o'r holl wybodaeth ystadegol.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol o wella perfformiad mewn addysg. Mae'n cyfrannu hefyd at yr amcan o sicrhau fod gan Sir Ddinbych weithlu medrus iawn a phreswylwyr sy'n weithredol yn economaidd, fel rhan o'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Sgiliau leol a rhanbarthol.

**6 Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae cost cyffredinol yn anodd pennu. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen cefnogaeth gan wasanaethau megis Gwasanaethau Plant ac Oedolion, Tai a Chyllid a Budd-daliadau i'r preswylwyr sy'n dod yn economaidd anweithgar ac nad oes ganddynt y sgiliau a'r cymwysterau i ymuno â'r gweithlu.

**7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

*Amh.*

**8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Amh.

**9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amh.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- Lleihad mewn cyllid 14-19 a Potensial ar ôl 2014.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.4 (b) yn amlinellu pwerau archwilio o ran amcanion polisi a pherfformiad.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Rhwydwaith 14 – 19
Ffôn: 01824 708032